# Sefydlu a gosod gatiau a rhwystrau wedi eu pweru

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn disgrifio sut i sefydlu a gosod gatiau a rhwystrau wedi eu pweru.

Mae'n cynnwys yr ystod lawn o gatiau wedi eu pweru (sydd yn siglo ac yn llithro) a rhwystrau a ddefnyddir yn y diwydiant ffensio. Dylai'r gosodwr ddilyn cwrs cymeradwy'r cynhyrchydd ar gyfer y math o giât wedi ei phweru y maent yn bwriadu ei gosod.

Mae'r safon yn cynnwys gosod gatiau a rhwystrau wedi eu pweru i byst, yn unol â manylebau.

DS Nid yw'r safon yn cynnwys y gwaith trydanol sy'n ofynnol ar gyfer gatiau a rhwystrau awtomataidd, y dylid cael ei wneud gan drydanwr cymwys a medrus yn unig.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer gosodwyr ffensys.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwneud gwaith yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg a pholisïau a gweithdrefnau'r cwmni
2. gwisgo dillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) addas
3. gwneud eich gwaith i gyd yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r manylebau
4. dewis a pharatoi'r offer a'r cyfarpar gofynnol
5. gwirio er mwyn cadarnhau bod amgylchedd gwaith diogel wedi cael ei sefydlu
6. cael cydrannau gatiau neu rwystrau o'r math, deunydd, ansawdd a'r radd benodedig
7. defnyddio arferion gwaith a argymhellir gan y diwydiant i baratoi a chydosod cydrannau gatiau neu rwystrau i fodloni'r manylebau
8. defnyddio arferion gwaith a argymhellir gan y diwydiant i sefydlu a gosod gatiau neu rwystrau wedi eu pweru yn ddiogel
9. cysylltu'r mecanwaith pweru i'r giât neu'r rhwystr yn unol â'r manylebau
10. cysylltu synwyryddion a rheolwyr yn unol â'r manylebau
11. cadarnhau bod y giât neu'r rhwystr wedi ei alinio a'i lefelu'n gywir
12. sicrhau bod y giât yn agor, yn cau ac yn bachu'n gywir a gwneud addasiadau lle bo angen
13. cadarnhau bod y nodweddion diogelwch ar y giât neu'r rhwystr yn gweithio'n gywir ac yn unol â'r manylebau
14. cadarnhau bod y cwsmer wedi ei hyfforddi'n llawn ac yn ymwybodol o weithrediad y giât neu'r rhwystr, y nodweddion diogelwch a'r gofynion cynnal a chadw
15. comisiynu'r giât neu'r rhwystr sydd wedi ei bweru yn unol â'r gofynion
16. cynnal integredd y gorffeniadau amddiffynnol wrth osod
17. defnyddio, cynnal a chadw a storio offer a chyfarpar yn ddiogel ac mewn cyflwr glân sydd yn hawdd eu gwasanaethu
18. gwaredu gwastraff a deunyddiau dros ben yn ddiogel i leihau risg amgylcheddol, yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol
19. gwneud eich gwaith mewn ffordd sydd yn effeithio cyn lleied â phosibl ar yr ardal gyfagos, defnyddwyr eraill y safle ac unrhyw un arall a allai fod wedi ei effeithio

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion amgylcheddol ac iechyd a diogelwch sydd yn gysylltiedig â pharatoi, sefydlu a gosod gatiau a rhwystrau wedi eu pweru
2. y peryglon a'r risg sydd yn gysylltiedig â gosod gatiau a rhwystrau, gan dalu sylw i fannau sydd yn gwasgu ac yn dal
3. y math o ddillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) sydd yn addas ar gyfer y dasg
4. y gofynion a'r gweithdrefnau ar gyfer cael mynediad i'r safle gwaith
5. y gofynion penodol ar gyfer cynlluniau trwydded waith
6. y mathau o arwyddion a rhwystrau amddiffynnol a ddefnyddir gan y diwydiant ffensio
7. y rhesymau dros reoli traffig wrth weithio gerllaw priffyrdd a systemau trafnidiaeth eraill
8. ble i gael y cyfarwyddiadau a'r manylebau sy'n ofynnol i wneud y gwaith
9. y mathau o offer a chyfarpar a ddefnyddir ar gyfer sefydlu a gosod gatiau neu rwystrau wedi eu pweru, a sut i baratoi, defnyddio a chynnal a chadw'r rhain yn ddiogel ac yn gywir
10. y gofynion cyfreithiol perthnasol ar gyfer defnyddio offer a chyfarpar wedi eu pweru
11. y cydrannau sy'n ofynnol ar gyfer y math o giât neu rwystr wedi ei bweru yr ydych yn ei osod a'u diben
12. y dulliau a ddefnyddir ar gyfer cydosod cydrannau giât neu rwystr
13. sut i nodi ac asesu pwysau a chanolbwynt cydbwysedd gatiau neu rwystrau
14. y dulliau a ddefnyddir ar gyfer gosod gatiau neu rwystrau wedi eu pweru ar byst
15. y dulliau a ddefnyddir ar gyfer alinio gatiau a rhwystrau fel eu bod yn agor, yn cau ac yn bachu'n gywir
16. y gofynion ar gyfer nodweddion diogelwch ar gatiau a rhwystrau wedi eu pweru
17. y gwiriadau i'w gwneud i gadarnhau bod y nodweddion diogelwch yn gweithio'n gywir
18. y broses gomisiynu ar gyfer giât neu rwystr wedi ei bweru
19. y broses o drosglwyddo i'r cwsmer
20. sut i roi giât neu rwystr wedi ei bweru allan o wasanaeth os yw'n beryglus
21. y mathau gwahanol o orffeniadau amddiffynnol, pam y cânt eu defnyddio a'r

dulliau o gynnal eu hintegredd wrth eu gosod

22. sut i ymdrin ag unrhyw anawsterau sydd yn codi yn ystod y prosiect o fewn terfynau eich cyfrifoldeb
23. y gofynion cyfreithiol perthnasol sydd yn rheoli gwaredu gwastraff a deunyddiau dros ben
24. y gofynion storio ar gyfer offer a chyfarpar
25. sut i leihau effaith eich gwaith ar yr ardal gyfagos, defnyddwyr eraill y safle ac unrhyw un arall a allai fod â diddordeb

## Geirfa

Gallai **cydrannau gatiau neu rwystrau** gynnwys:

- giât
- rhwystr
- cyplysau
- colfachau
- cliciedi
- bolltau
- rheolyddion
- mecanweithiau pŵer
- synwyryddion
- nodweddion diogelwch

Gallai **manylebau** gynnwys:

- cynlluniau/darluniau
- amserlenni
- datganiadau dull
- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOP)
- canllawiau cynhyrchwyr
- gofynion cwsmeriaid
- safonau ansawdd e.e. BSI, CE

## Cysylltiadau â SGC eraill

LANFe23 Sefydlu a gosod gatiau a rhwystrau llaw

Sefydlu a gosod gatiau a rhwystrau wedi eu pweru

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANFe24 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffensio |
| **Cyfres/Set** | Ffensio |
| **Geiriau Allweddol** | ffensio; cydrannau; gatiau; rhwystrau |